# Mae fy nghartref yn bwysig

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Cynhadledd Flynyddol 2025 Anabledd Dysgu Cymru

# Arddangos

Dydd Iau 6 Tachwedd – Cyffordd Llandudno, Gogledd Cymru

Dydd Iau 13 Tachwedd – Abertawe, De Cymru



# Am ein cynhadledd flynyddol



Dydy ein cynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru ddim fel cynadleddau eraill. Mae'n sefyll allan fel enghraifft o gynhwysiant a hygyrchedd. Rydyn ni yn ymdrechu i sicrhau bod ein digwyddiad yn gyfeillgar ac yn groesawgar i bawb, os oes gennych anabledd dysgu ai peidio.

Mae llawer o'n siaradwyr ac arweinwyr gweithdai yn arbenigwyr trwy eu profiadau eu hunain o gael anabledd dysgu, rydyn ni yn credu bod pawb yn elwa o weithredu fel hyn.

Bob blwyddyn mae'r gynhadledd yn dod â phobl ag anabledd dysgu a gweithwyr proffesiynol ynghyd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn awdurdodau lleol, darparwyr cymorth, sefydliadau gwirfoddol, a chomisiynwyr.

Mae fy nghartref yn bwysig yn edrych ar ble mae pobl ag anabledd dysgu yn byw, y dewisiadau sydd ganddynt yn eu cartrefi, a beth mae pobl yn ei wneud i greu Cymru sydd yn lle gwell i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio ynddi. **Gallwch fod yn rhan o'r digwyddiad unigryw hwn.**

# Sut gallwch chi elwa







Mae cefnogi ein cynhadledd drwy arddangos yn rhoi cyfle i chi gyrraedd a dylanwadu ar bobl a sefydliadau yn y gymuned anabledd dysgu yng Nghymru, gall hefyd eich helpu i:

- Cynyddu gwelededd eich sefydliad
- Targedu sefydliadau yn y maes hwn mewn ffordd gost-effeithiol
- Dod o hyd i gleientiaid, partneriaid, a chwsmeriaid newydd
- Cynyddu eich cyfran o'r farchnad di-elw
- Meithrin perthynas â mudiadau eraill yn y sector gwirfoddol
- Dangos eich ymrwymiad i sector di-elw cryf

# Costau Arddangos

## £400 + TAW y dydd – Safonol
## £250 + TAW y dydd – Consesiwn

Fel arddangoswr yn y digwyddiad, fe gewch:

- Gofod arddangos mewn prif leoliad
- 2 le i staff yn eich stondin arddangosfa sy'n gallu mynychu'r gynhadledd fel cynrychiolwyr llawn neu'r cyfle i roi'r lleoedd i eraill
- Eich logo a manylion sefydliad i ymddangos o fewn llawlyfr y Gynhadledd
- Cyfle i arddangos eich baner dros dro yn y dderbynfa ddigwyddiadau
- Tabl 6 troedfedd wedi'i ddarparu
- WiFi a chyflenwad trydan ar gael
- Cinio a lluniaeth yn gynwysiedig

Bydd y cynrychiolwyr yn gallu ymweld â'ch stondin yn ystod y cyfnod cofrestru, egwyl yn y bore a'r prynhawn yn ogystal â thros ginio. Byddwn yn sicrhau bod pawb yn gwybod cymaint yr ydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth drwy gydnabod eich sefydliad fel arddangoswr mewn unrhyw sylw yn y wasg a gan gadeirydd y digwyddiad yn ystod y digwyddiad.

Gallwch fod yn sicr ein bod yn gallu cynnig y prisiau isaf posibl i bobl sydd ag anabledd dysgu fynychu'r gynhadledd hon trwy arddangos.

# Cysylltu â ni

I drefnu eich hysbysebion, cysylltwch â Lucy O'Leary ar:

Ffôn: 029 2068 1163

Ebost: lucy.oleary@ldw.org.uk

Anabledd Dysgu Cymru
41 Cilgant Lambourne
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd
CF14 5GG

www.ldw.org.uk